CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
# AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

Rhif yr elusen:  505262

www.llyfrau.cymru

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | |
| Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen | 2–4 |
| Crynodeb o Waith y Flwyddyn | 4–7 |
| Targedau a Chyflawniad | 8–9 |
| Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol | 10–11 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr | 12 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 13–14 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | 15 |
| Mantolen | 16 |
| Datganiad o'r Llif Arian | 17 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 18–28 |

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

Cyflwyna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

**Prif Weithgareddau'r Elusen**

- Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall;
- Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd;
- Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/ comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwyr;
- Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

**Datganiad Budd y Cyhoedd**

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd i'r Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd y Cyngor Llyfrau yw darparu budd i ddarllenwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

**Manylion Gweinyddol**

| | |
|---|---|
| Enw'r elusen | Cyngor Llyfrau Cymru |
| Rhif Elusen Gofrestredig | 505262 |
| Cyfeiriad Cofrestredig | Castell Brychan<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 2JB |
| Archwilwyr | Llŷr James<br>Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig<br>25 Stryd y Bont<br>Caerfyrddin<br>SA31 3JS |
| Bancwyr | HSBC plc<br>Sgwâr Harford<br>Llanbedr Pont Steffan<br>Ceredigion<br>SA48 7DU |
| Prif Weithredwr | Helgard Krause |
| Brocer Buddsoddiadau | Blackrock<br>12 Throgmorton Avenue,<br>London<br>EC2N 2DL |

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

**Ymddiriedolwyr**

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd aelod sydd yn gynrychiolydd neu sydd wedi'i gyfethol yn dal y swydd am dair blynedd o ddechrau'r Cyfarfod Cyffredinol nesaf ar ôl ei benodi neu ei gyfethol, eithr os bydd aelod yn ymadael â'i swydd am unrhyw reswm cyn diwedd ei dymor, bydd gan y Cyngor yr hawl, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwaith neu'r corff y mae'r aelod yn ei gynrychioli, fel y bo'n berthnasol, i benodi rhywun yn ei le i ddal y swydd hyd ddiwedd y tymor penodedig. Yr ymddiriedolwyr ar gyfer 2017/18 yw:

**Prif Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yr Athro M. Wynn Thomas | Cadeirydd |
| Mrs Rona Aldrich | Is-Gadeirydd |
| Yr Athro Jane Aaron | Ysgrifennydd Mygedol |
| Mr Chris Hywel Macey | Trysorydd |
| Mr Gwydion Hughes | Cwnsler Mygedol |
| Mr Alun P. Thomas | Cyfreithiwr Mygedol |

**Awdurdodau Lleol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Nigel Smith | Conwy |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Sir Gaerfyrddin |
| Y Cynghorydd Fiona M. Gordon | Abertawe |
| Y Cynghorydd Bob Greenland | Sir Fynwy |
| Y Cynghorydd Clive Meredith | Blaenau Gwent |
| Y Cynghorydd Julian Simmons | Caerffili |

**Cynrychiolwyr Eraill**

| | |
|---|---|
| Mr Richard Bellinger | Llyfrgellwyr Sir Cymru |
| Mr Gareth Griffiths | Llyfrgellwyr Sir Cymru |
| Mr Meilyr Rowlands / Mr Dyfrig Ellis | Estyn |
| - | Cyngor y Celfyddydau |
| - | CBAC |
| Mrs Linda Tomos | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Mrs Kathryn Parry | CILIP Cymru Wales |
| Mr Ion Thomas / Ms Bethan Gwanas | Cyfeillion y Cyngor Llyfrau |
| Ms Marian Delyth | Cyfeillion y Cyngor Llyfrau |
| Mr Dafydd John Pritchard | Llenyddiaeth Cymru |
| Mr Robat Arwyn | Panelau'r Cyngor |
| Mrs Lorna Herbert Egan | Panelau'r Cyngor |
| Yr Athro Daniel G. Williams | Panelau'r Cyngor |
| Y Parch Lyn Léwis Dafis | Aelod Cyfetholedig |
| Dr Cathryn Charnell-White | Aelod Cyfetholedig |

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

**Cyfansoddiad**

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru. Sefydliad anghorfforedig annibynnol a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig yw'r Cyngor Llyfrau. Cafodd y cyfansoddiad ei ddiwygio ar 30 Mehefin 2017.

**Y Cyngor a'i bwyllgorau**

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru, a chroestoriad o sefydliadau diwylliannol Cymru. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr yr elusen. Un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Panel Enwebiadau sy'n penodi aelodau i'r panel arbenigol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Swyddogaeth y Panel Enwebiadau yw sicrhau bod y drefn o benodi aelodau i'r panelau, trwy hysbysebu agored, yn deg a thryloyw, yn unol â threfn arfer gorau.

**Crynodeb o waith y flwyddyn**

Darllen er Pleser – Y Pŵer sydd mewn Darllen

Wrth i mi ystyried fy neuddeg mis llawn cyntaf fel Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau ac edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol sydd i ddod mewn cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd, mae'n gysur gwybod bod rhai gwirioneddau yn ddigyfnewid; yn benodol, y gwirionedd mawr hwnnw sy'n llywio, yn arwain ac yn gwbl greiddiol i'n gwaith: pŵer trawsnewidiol darllen.

Mae gennym hanes rhagorol o gydweithio â phartneriaid megis The Reading Agency, World Book Day a Stori Sydyn, gan redeg nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo darllen er pleser mewn cydweithrediad ag ysgolion a llyfrgelloedd. Bu cyrhaeddiad ac effaith y rhain yn sylweddol ac rydym yn bwriadu ymestyn ein gweithgareddau yn y meysydd hyn, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd ariannu newydd.


Ystadegau ar gyfer yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen:


| | |
|---|---:|
| Nifer y plant a gymerodd ran yn Sialens Ddarllen yr Haf 2017 | 40,445 |
| Nifer y siroedd fu'n cymryd rhan | 100% |
| Gwerthiant teitlau Stori Sydyn | 5,120 |
| Ymweliadau ag ysgolion – Taith Awdur (4 taith) | 18 |

Mae ymchwil wedi profi bod cysylltiad rhwng darllen a chyrhaeddiad academaidd, ond hefyd caiff darllen effaith gynyddol ar les cyffredinol pobl. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo unigolion yn gweld eu hunain, eu bywydau a'u cymunedau'n cael eu hadlewyrchu yn y llyfrau a'r cylchgronau y maent yn eu darllen. Nid rhywbeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ei hun yw hyn ond rhywbeth sydd, yn ddiamau, yn mynd lawer ymhellach. Mae dimensiwn Cymreig o fewn cyhoeddi Saesneg o Gymru yr un mor bwysig, yn enwedig pan fo cynnyrch ein cymydog agosaf, Lloegr, ar gael yn rhwydd ac yn deillio o'r sector cyhoeddi mwyaf yn y byd.

O fewn y cyd-destun hwn mae'r gefnogaeth strategol hir dymor drwy ein system grantiau yn sicrhau bod y cyhoeddwyr yn gallu buddsoddi mewn lleisiau Cymreig dilys, sydd nid yn unig yn plesio'r darllenwyr ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn ond sydd hefyd yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o awduron. Mae'r micro-fentrau hyn – ac mae'r holl gyhoeddwyr a gefnogir gennym yn perthyn i'r categori hwn – yn ffurfio rhan greiddiol o'r economi sylfaenol: mae'r rhan fwyaf wedi'u lleoli mewn

ardaloedd gwledig, difreintiedig, ond eto'n cynnig cyfleoedd ar gyfer swyddi medrus sydd wedi'u cefnogi'n rhannol gennym ni; maent hefyd yn gwneud defnydd anghymesur o gadwyni cyflenwi lleol sy'n sail i gymunedau lleol ac i economi Cymru.






1 Cwpwrdd Cornel
Oriel Ynys Môn
2 Awen Menai
3 WHSmith
4 Siop Ogwen
5 Na-nôg
Palas Print
WHSmith
6 Nant Gwrtheyrn
7 Bookseller
Llên Llŷn
Oriel Plas Glyn-y-Weddw
8 Roots
Swyddfa Bost Cricieth
9 Browsers
Siop Eifionydd
10 Siop Dewi
Siop y Ddraig Aur / Golden Dragon Portmeirion
11 Castle Gifts
12 Siop yr Hen Bost
13 J&J Newsagents
14 Awen Meirion
15 Garej Cwt Gwyn
Siop y Cymro
Waterloo
WD Wilkins
16 Siop Lyfrau Lewis
Waterstones
WHSmith
17 Hinton's
18 Colwyn Books
WHSmith
19 Bys a Bawd
20 Siop y Morfa
WHSmith
21 Siop Clwyd
22 Bookshop Ruthin
Elfair
23 Caffi Treferwyn
24 Courtyard Books
25 Oriel Clwyd Theatr Cymru
Siop y Siswrn
The Bookshop
WHSmith
26 WHSmith
27 Siop Cwlwm
Waterstones
WHSmith
28 Pethe Powys
WHSmith
29 MOMA Wales
Penrallt Gallery
30 Fuze Ltd
Oriel Davies
WHSmith
31 Great Oak Bookshop
32 Verzon Books
33 Cathedral Tithebarn
The Hours
WHSmith
34 Cofion Cynnes
35 Book-ish
36 Siop Cynfelyn
37 Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth
Cerdd Ystwyth
LlGC / NLW
Siop Inc
Siop y Pethe
Turn the Page
Waterstones
WHSmith
Ystwyth Books
38 Aeron Booksellers
Gwisgo
39 Anrhegaron
Medical Hall
Rhiannon
40 Smotyn Du
41 Ffab
42 Awen Teifi
Castell Aberteifi
WHSmith
43 Siop Siân
44 Siop Iago
45 Seaways
46 Cathedral Bookshop
Oriel y Parc
St David's
47 Window on Wales
48 Sheep Shop
Victoria Bookshop
Vincent Davies
WHSmith
49 Golden Sheaf Gallery
Narberth Museum
50 Caldey Shop
Tenby Bookshop and Art Gallery
WHSmith
51 Caldey Island Shop
52 Choices
53 Siop y Pentan
Tu Hwnt
Waterstones
WHSmith
54 Igam Ogam
55 Cwtsh Glöyn
56 College Street Books
Cyfoes
57 WHSmith
58 Dylan Thomas Centre
Siop Tŷ Tawe
Uplands
Waterstones
WHSmith
59 Cover to Cover
60 Tŷ'r Gwrhyd
61 WHSmith
62 The Dream Shop
63 WHSmith
64 Siop y Bont
WHSmith
65 Llyfrau'r Enfys Merthyr
66 WHSmith
Llyfrau'r Enfys Llanbradach
67 WHSmith
68 Abergavenny Bookshop
Waterstones
WHSmith
69 Rossiters
WHSmith
70 Chepstow Bookshop
WHSmith
71 Cowbridge Bookshop
72 Nickleby's
73 WHSmith
74 Griffin Books
WHSmith
75 Siop y Felin
76 Cant a Mil
77 Amgueddfa Werin Cymru
78 Caban
79 Wellfield
80 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Blackwells
Bodlon
Octavo's Books Cafe and Wine Bar
Portmeirion
Waterstones
WHSmith
81 Waterstones
WHSmith

Er gwaethaf pwysigrwydd ac amrywiaeth y fformatau digidol sy'n newid yn barhaus, mae i'r llyfr printiedig ei apêl barhaol. Mae'r isadeiledd o ran logisteg a gweithgarwch sy'n angenrheidiol i wasanaethu'r llyfrwerthwyr 'brics a mortar' a'r mân-werthwyr ar-lein yn cael ei ymgorffori i'r dim yn ein Canolfan Ddosbarthu: gan weithredu fel dosbarthwr a chyfanwerthwr mae'n cynnig 15,000 o deitlau unigol ac yn dal 500,000 o lyfrau ar unrhyw adeg benodol. Fel menter fasnachol sy'n ei hariannu ei hun, mae'r Ganolfan Ddosbarthu yn cyflogi 19 aelod o staff ac yn cynnig cefnogaeth

anuniongyrchol sylweddol i'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr drwy gynnig telerau dosbarthu sydd wedi'u sybsideiddio'n helaeth. Mae felly'n ddolen gyswllt hanfodol yn y gadwyn gyflenwi sy'n gwasanaethu Cymru gyfan ac yn cynnwys canolfannau anhraddodiadol megis canolfannau croeso, Cadw, Amgueddfeydd Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, tra bo'r farchnad ryngwladol yn cael ei gwasanaethu drwy gwales.com.

Ystadegau ar gyfer y Ganolfan Ddosbarthu:

| | |
|---|---|
| Nifer y llyfrau a werthwyd | 530,897 |
| Nifer y llyfrau mewn stoc | 475,911 |
| Cwsmeriaid a brynodd lyfrau yn 2017/18 | 494 |
| Cwsmeriaid y tu allan i Gymru | 41 |
| Gwerthiant y tu allan i Gymru | £384,059 |
| Cyflenwyr y Ganolfan | 553 |
| Gwerthiant i'r 10 cyflenwr uchaf | 66% |

Mae'r rhagolygon ar gyfer ariannu'r celfyddydau yn parhau i fod yn heriol a rhagwelir gan lawer y bydd lefelau'r cyllid yn crebachu ymhellach. Yng ngoleuni'r sefyllfa hon y mae'r Cyngor Llyfrau yn buddsoddi mewn sgiliau ychwanegol o ran codi arian ac ysgrifennu ceisiadau, ynghyd â'r maes digidol a Thechnoleg Gwybodaeth, a fydd yn ein galluogi nid yn unig i gynnal y gwasanaethau a gynigir gennym ond i'w datblygu ymhellach. Mae ein cenhadaeth fel elusen genedlaethol yn glir ac wedi ei gwreiddio'n ddwfn eisoes yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru, a'r cam naturiol nesaf yw gosod conglfeini Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth graidd ein gwaith.

| | |
|---|---|
| Cymru ac iddi ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae ein holl waith yn ymwneud yn ei hanfod â'r diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Rydym wedi buddsoddi i arbed ynni gyda synwyryddion golau a goleuadau LED |
| Cymru lewyrchus | Nododd gwaith ymchwil marchnad gan Brifysgol Caerdydd ein bod yn cyfrannu £2.4m i weddill yr economi |
| Cymru gydnerth | Mae ymgynghori, hyfforddiant a chefnogaeth wedi arwain at gryfhau'r cyhoeddwyr |
| Cymru iachach | Bydd cynlluniau newydd fel Darllen yn Well yn darparu opsiwn y presgripsiwn cymdeithasol yn ddwyieithog |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Mae pob Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan yn ein cynlluniau darllen, o Sialens Ddarllen yr Haf i'r cystadlaethau llyfrau |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae ein cyhoeddiadau (ar-lein ac mewn print) yn cefnogi newyddiaduraeth leol gan adlewyrchu'r cymunedau lleol |

Mae cyfleu gwerth y diwydiant llyfrau a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar gymunedau a sectorau eraill yn gynyddol bwysig, a byddwn yn cryfhau'r agwedd benodol hon ar ein gwaith.

Mae'n dda gennyf weld bod ein hymddiriedolwyr a staff y Cyngor Llyfrau yn cydnabod bod yr heriau a wynebwn yn galw am newid, ac rwy'n falch o fod yn arwain tîm rheoli sy'n barod i fynd i'r afael ag adolygiad o'n strwythurau a'n prosesau ar bob lefel. Rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn cryfhau ein sefydliad gan ein gwneud yn fwy gwydn er mwyn ein galluogi i wynebu unrhyw heriau yn y dyfodol gyda hyder a chreadigrwydd.

**Cyflawniad a Pherfformiad**

Roedd yn flwyddyn brysur i'r Cyngor Llyfrau gyda pharatoi cyfres i ddysgwyr, Amdani, gweithgarwch y cynlluniau hyrwyddo darllen (nad ydynt wedi eu nodi isod) a pharatoi ar gyfer rhaglen newydd ar y cyd â The Reading Agency, Darllen yn Well, a gaiff ei chyhoeddi yn 2018/19 a 2019/20.

| TARGEDAU ALLWEDDOL 2017/18 | | |
|---|---|---|
| | **2017/18 Targed** | **2017/18 Cyflawni** |
| Teipysgrifau – Adran Olygyddol | 170 | 166 |
| Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio | 110 | 110 |
| Adolygiadau llyfrau ar Gwales | 200 | 197 |
| Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu | £4.05m gros<br>£2.7m net | £3,917,319 gros<br>£2,633,272 net |
| Lefel dyledwyr y Ganolfan | Dim mwy na 2% | 0.35% |
| Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein i siopau ac unigolion | £3,042,530 | £2,478,849 |
| Gwasanaeth Ysgolion | Ymweliadau: 500<br><br>Gwerth archebion: £400,000 | Ymweliadau: 424<br><br>Gwerth archebion: £329,313 |
| Cynllun Ymestyn | Achlysuron: 350<br>Gwerthiant: £150,000 | Achlysuron: 351<br>Gwerthiant: £139,320 |

| TARGEDAU ALLWEDDOL 2017/18 – GRANTIAU CYHOEDDI | | |
|---|---|---|
| | **2017/18 Targed** | **2017/18 Cyflawni** |
| **Grantiau Cymraeg** | | |
| Nifer y teitlau a gyhoeddir | 215 | 208 |
| Cyfartaledd gwerthiant | 1,000 ar ôl 18 mis | 771 |
| Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg | 15 | 15 |
| Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen | 95% | 99% |
| Cyfartaledd gwerthiant y cylchgronau | 2,850 – Hamdden<br>2,220 – Newyddiaduraeth<br>1,650 – Plant<br>600 – Llenyddol a Diwylliannol | 2,898 – Hamdden<br>2,070 – Newyddiaduraeth<br>1,680 – Plant<br>719 – Llenyddol a Diwylliannol |
| **Grantiau Saesneg** | | |
| Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir | 75 | 79 |
| Nifer teitlau blaendal awdur a gyhoeddir | 15 (i'w cyhoeddi)<br>(+ 10 wedi'u comisiynu) | 16 (i'w cyhoeddi)<br>(+ 19 wedi'u comisiynu) |
| Grantiau Marchnata | 20 | 19 |
| Nifer cylchgronau llenyddol | 5 | 5 |
| Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau llenyddol | Cyffredinol – 1,000<br>Aml-ffocws – 500<br>Ffocws unigol – 400 | Cyffredinol – Print: 1,278 / Gwefan: 6,348<br>Aml-ffocws<br>Print: 570 / Gwefan: 1,944<br>Ffocws unigol – Print: 572 |
| Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen | 95% | 95% |

**Adolygiad ariannol**

Derbyniwyd cyfanswm o £6.8m o incwm yn ystod y flwyddyn o gymharu â £6.7m yn 2016/17. Gwariwyd cyfanswm o £6.9m (£6.7m yn 2016/17) sydd yn gadael diffyg net o £98,010 (2016/17 – gweddill o £49,483). Ar 31 Mawrth 2018, roedd asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £1.1m (2016/17: £1m).

**Polisi Arian wrth gefn**

Lluniwyd y Polisi Arian wrth gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl a hefyd i ddelio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol yma mewn nifer o gategorïau:

***Cronfeydd Anghyfyngedig***

- Cronfeydd Cyfalaf – £450,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl.
- Cronfeydd Refeniw
    - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2018, roedd gweddill o £1,442,000 (2016 – 17: £1,842,000). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gyfraniadau gyda Chronfa Bensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2021, felly nid oes ganddynt reolaeth bellach ar faint y gronfa yma.
    - Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 5% o'r grant craidd (a fyddai'n golygu £55,045 yn 2017/18).
    - Canolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (£260,238 ar sail ffigurau 2017/18).

***Cronfeydd Penodol***

Targed o £200,000 ar gyfer datblygiadau cyfrifiadurol na ellir eu hariannu trwy'r grant refeniw arferol. Gall hyn gynnwys prosiectau brys neu wariant hir dymor ar systemau newydd. Ni wnaethpwyd defnydd o'r gronfa yn 2017/18.

**Prif noddwyr**

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth yma, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

**Polisi buddsoddiadau**

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

**Gwirfoddolwyr**

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, felly nid yw yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

**Trafodion partïon cysylltiol**

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y bônt yn codi. Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn sydd yn diweddu 31 Mawrth 2018 gan yr ymddiriedolwyr.

**Rheoli Risg**

Mae’r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi’u sefydlu i wrthsefyll pob risg o’r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o’r broses hon.

**Rhagdybiaeth Busnes Byw**

Mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae’n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes byw.

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:**

Yr Ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- ddyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- ddatgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- baratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd yr Elusen yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr Elusen yn gymharol gywir ar unrhyw adeg a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

**ARCHWILWYR**

Cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James, yn y Cyfarfod Blynyddol.

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blynyddol ar 7 Rhagfyr 2018.

................................................................................ Yr Athro M. Wynn Thomas

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 sef y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, Llif arian yn ogystal â'r nodiadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, adran 1A, 'Y Safon ar Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen ar 31 Mawrth 2018 ac o'i diffyg am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw.
- Wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, a
- Wedi eu paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

**Sail ein barn**

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SrhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Cyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

**Casgliadau yn ymwneud a hyfywdra**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol:

- Nad oedd yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon ar sail eu rhagdybiaeth fod yr Elusen yn hyfyw.
- Nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a allai greu amheuon am allu'r elusen i barhau i baratoi cyfrifon ar sail hyfywdra am gyfnod o ddeuddeg mis, o leiaf, o'r dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwiliwr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall, a heblaw ein bod yn datgan fel arall, nid ydym yn datgan unrhyw farn arnynt.

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a ydy'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio. Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth naill ai yn y datganiadau ariannol neu'r wybodaeth arall yn gamarweiniol.

Os, ar sail ein gwaith, ydym o'r farn fod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

### Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw sylw ar y materion canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn am sylwadau os, yn ein barn ni:

- Nad yw'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol; neu
- Nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw: neu
- Nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo: neu
- Nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

### Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel y disgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, nhw sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg. Yr ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol y maen nhw'n ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, lle bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen, heblaw bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dod â'r gweithgareddau i ben neu nad oes dewis ganddynt ond i wneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rydym wedi ein hapwyntio fel archwiliwr dan Ddeddf Elusennau 2011, adran 144 ac yn adrodd yn unol â rheoleiddiadau adran 154 o'r Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol yn deillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw yn gwarantu fod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu o wallau ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, byddai modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau fel archwilwyr ar wefan y Cyngor ar Adrodd Ariannol sef www.frc.org.uk/auditors responsibilities. Mae'r disgrifiad hwnnw yn rhan o'n hadroddiad fel archwiliwr.

Bethan Vaughan.

BETHAN VAUGHAN

PRIF ARCHWILIWR STATUDOL ar gyfer ac ar ran

LLŶR JAMES CYF
Archwilwyr Statudol
25 Stryd y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

Dyddiad: 29-10-18

## CYNGOR LLYFRAU CYMRU

### DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Penodol | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2018 | Cyfanswm 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm drwy weithgaredd elusennol** | | | | | | |
| Grantiau | 3 | **1,100,900** | **209,750** | **2,699,033** | **4,009,683** | 3,897,925 |
| Adrannau eraill | 4 | **165,289** | **–** | **15,028** | **180,317** | 176,111 |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | | | | | |
| Canolfan Ddosbarthu | 8 | **2,633,272** | **–** | **–** | **2,633,272** | 2,629,501 |
| Buddsoddiadau | 4 | **–** | **–** | **4,226** | **4,226** | 4,061 |
| **Cyfanswm adnoddau a dderbynnir** | | **3,899,461** | **209,750** | **2,718,287** | **6,827,498** | 6,707,598 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | | | |
| **Gweithgaredd elusennol** | | | | | | |
| Grantiau wedi eu dosbarthu | 5/6 | **–** | **–** | **2,548,100** | **2,548,100** | 2,483,000 |
| Gwariant elusennol | 7 | **1,418,004** | **179,750** | **150,933** | **1,748,687** | 1,547,290 |
| **Gweithgareddau masnachol eraill** | | | | | | |
| Canolfan Ddosbarthu | 8 | **2,628,721** | **–** | **–** | **2,628,721** | 2,627,825 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **2** | **4,046,725** | **179,750** | **2,699,033** | **6,925,508** | 6,658,115 |
| **Adnoddau net a dderbynnir cyn trosglwyddiadau** | | **(147,264)** | **30,000** | **19,254** | **(98,010)** | 49,483 |
| **Enillion / (Colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | | |
